Cymdeithas Canolfan Noddfa

Darparu Gwasanaeth Hyrwyddo a Marchnata

Yn atebol i: Y Pwyllgor Gwaith

Dyddiad Cychwyn: canol Ebrill 2024

Noder Gwasanaeth Dros Dro hyd at 20 wythnos

Cyd-destun

Mae Cymdeithas Canolfan Noddfa yn sefydliad anghorfforedig a sefydlwyd yng Nghaernarfon yn 1991 i redeg Canolfan Noddfa (www.noddfa.cymru). Ein gweledigaeth yw *"creu cyfleoedd i wella ansawdd bywydau pobl Caernarfon - ac yn benodol trigolion Peblig - drwy ddarparu amgylchedd ddiogel, croesawgar ac ysbrydoledig i'r trigolion hynny gysylltu, cyfarfod a mwynhau cwmni ei gilydd gan fanteisio ar y cyfleoedd llesiant meddyliol a chorfforol a grëir yn y Ganolfan ".*

Ers ei hadeiladu yn 1977 bu Noddfa yn ganolbwynt a hwb cymunedol allweddol i gymuned Ysgubor Goch. Mae'r adeilad yn cynnwys dwy neuadd amlbwrpas, dwy ystafell gyfarfod, chwe swyddfa a chegin. Mae'n gartref i'r Cylch Meithrin mwyaf yng Ngwynedd ac y mae nifer o wasanaethau – gan gynnwys gwasanaeth milfeddygol gan yr RSPCA, gwasanaeth cyngor i drigolion, gwasanaeth crefyddol a chymorth bugeiliol, dosbarthiadau ffitrwydd, dosbarthiadau celfyddydol i blant, cynllun chwarae yn ystod gwyliau ysgol, dychwelyd i waith Gwaith Gwynedd a sawl un arall – yn gwneud defnydd o'r adeilad.

Yn dilyn Pandemig Covid 19 mae'r Gymdeithas wedi gorfod dechrau tynnu ar ei chronfeydd wrth gefn wrth weld lleihad yn ei hincwm refeniw a chynnydd mewn costau cynnal a chadw, yn enwedig gwres a golau. Er mwyn cynyddu ei incwm a chreu canolfan gymunedol hunangynhaliol yn y tymor hir mae angen gwella effeithlonrwydd ynni, ei gwneud yn fwy deniadol i ddefnyddwyr a chynyddu ffrydiau incwm, gan gynnwys denu mwy o sefydliadau / mudiadau yn llogi ystafelloedd a swyddfeydd yn y ganolfan.

Mae'r Gymdeithas wedi derbyn cymorth ariannol dan raglen Grymuso Gwynedd (sydd yn ei dro wedi ei ariannu dan Ffyniant Bro Llywodraeth y DG) i wireddu prosiect "Dyfodol Llewyrchus i Noddfa". Nod y prosiect yw sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r adnodd pwysig hwn drwy "weithio'r ased yn galetach" a thrwy hynny ein galluogi i gynyddu ein hincwm er mwyn gallu dod â dau ben llinyn. Mae tair rhan 'r prosiect yn edrych ar well perfformiad ynni'r Ganolfan a'i gwneud yn fwy deniadol i'w defnyddio.

Bydd yr elfen hon o'r prosiect yn canolbwyntio ar hyrwyddo a marchnata y ganolfan, gan gynnwys gwella'r ymgysylltiad gyda'r gymuned, a denu mwy o wirfoddolwyr i chwarae rhan yn rhedeg y Ganolfan. Hoffem ddatblygu sut rydym yn hyrwyddo beth sydd ar gael yn Noddfa i'r gymuned yn lleol ac i'r cyhoedd a sefydliadau yn ehangach, yn enwedig drwy ddefnyddio dulliau cyfryngau cymdeithasol. Golyga hyn baratoi deunydd marchnata, datblygu ein presenoldeb ar lein a chysylltu yn uniongyrchol drwy lythyru neu e-bostio gwahanol sefydliadau.

DRAFT 08.05.24

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cwmpas y Gwasanaeth

Y mae'r Gymdeithas angen caffael person neu gwmni i fod yn gyfrifol am arwain ar wella a chychwyn y gwaith ar y modd y mae Noddfa yn cael ei farchnata a'i hyrwyddo.

Prif dasgau gwasanaeth fydd:

- Adolygu'r trefniadau marchnata presennol ac argymell cynllun i wella'r modd y mae adnoddau Noddfa yn cael ei farchnata gyda'r nod o gynyddu'r nifer o ymholiadau am gyfleusterau yr adeilad a'u hwyluso i droi'n archebion;
- Cynnal ymgyrch i wella ymwybyddiaeth o adnoddau Noddfa o fewn y gymuned gyda'r nod o ddenu fwy i'w defnyddio ac i drigolion gynnig eu hamser i wirfoddoli
- Cynnal ymgyrch hyrwyddo cychwynnol drwy dulliau ar lein a mwy uniongyrchol i ddenu mwy o sefydliadau a phersonau i hurio ystafelloedd a swyddfeydd
- Paratoi adroddiad ar ddiwedd y cyfnod ar berfformiad yr ymgyrch a gwersi o ran y ffordd ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith.

Disgwylir i'r swydd neu'r gwasanaeth gael ei ddarparu am hyd at 2 ddiwrnod yr wythnos - hyd at 20 wythnos. Bydd rhaid i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith **dim hwyrach na 13 Medi 2024**.

Ffi – hyd at £6,000 (yn cynnwys TAW os yn berthnasol)

Dyddiad Cau: Dydd Llun Ebrill 15, 2024 am 5 yr hwyr.

Am fanylion pellach a sgwrs anffurfiol, cysylltwch â: Cyng. Dewi Jones, **********

DRAFT 08.03.24

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU